

## **DAMEG Y DDAU FAB.**

**Emyn:** 142 ‘*Cyfrif y bendithion.*’

**Darlleniad:** Mathew 21:28-32.

Mae'r ddameg yn ymddangos tua diwedd efengyl Mathew, yn dilyn ymdaith fuddugoliaethus Iesu i Jerwsalem. Derbyniwyd Iesu i'r ddinas gyda'r bobl yn gweiddi, “*Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw'r un sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd,*” 21:9. Fe'i cyfarchwyd fel un oedd yn Frenin ac yn Feseia, ond nid oedd yr arweinwyr Iddewig yn hoffi hyn. Fe gynhyrfwyd yr arweinwyr yn fwy fyth pan wnaeth Iesu lanhau'r deml a dyma hwynt yn cwestiynu ei awdurdod i weithredu fel y gwnaeth (23-27). Yn dilyn hyn dyma'r Iesu yn cyflwyno dameg y ddu fab.

### **A. DAU GYMERIAD.**

Mae'r mab a wnaeth dweud y buasai'n barod i weithio yn y winllan, ond ni wnaeth, yn cynrychioli'r arweinwyr Iddewig. Roeddent yn ymddangos yn grefyddol ond gwrthod negeswyr Duw (Ioan Fedyddiwr ac yna Iesu) a wnaethant. Roedd y mab arall a wnaeth wrthod cais y tad ar y cychwyn ond yna ufuddhaodd iddo, yn cynrychioli'r casglwyr trethi a phuteiniaid. Dyma bobl a oedd wedi gwrthod safonau Duw ond yna maent yn flin am eu

bywydau bydol ac annuwiol ac yn troi at Iesu Grist ac yn ei wasanaethu. Y tad yn y ddameg yw Duw; y winllan yw'r eglwys. Dyma gyfle i'r meibion i'w wasanaethu.

i) **Yr Ail Fab:** Yn y ddameg, mae Iesu yn pwysleisio'r angen i gyflawni ewyllys y tad, yn hytrach na chyflawni gofynion personol. Fe wnaeth yr ail fab ddatgan “*Fe affi, syr*” 30. Mae ei ymateb yn codi'r cwestiwn, 'A ydyw'n anghywir i wneud addewidion i Dduw, pan mae'r posibilrwydd y gwnawn fethu eu cadw?' Na, nid yw Iesu yn dweud na ddylwn wneud datganiadau tebyg i Dduw; yr hyn mae Iesu yn disgwyl oddi wrthym yw ymateb didwyll a chyffes onest! Mae Iesu ei hun yn dweud bod pobl yn ei amser yn datgan iddynt wneud hyn a'r llall ond nid oeddent yn cyflawni ewyllys Duw. Roedd eraill yn ei gyfarch fel Arglwydd, ond nid oeddent yn ei wir garu.

Heddiw, ceir pobl sy'n datgan eu bod yn aelodau o gapel neu eglwys, maent yn ymddangos fel Cristnogion da; gallant hyd yn oed cyflawni rhyw waith Cristnogol, ond maent dal yn anufudd i Dduw. Nid ydynt mewn gwirionedd yn gweithio o fewn winllan Duw ond yn hytrach yn adeiladu teyrnasoedd eu hunain. Cyn gwir wasanaethu'r Arglwydd rhaid adnabod Iesu yn Waredwr!

ii) **Y Mab Cyntaf:** Dyma'r mab wnaeth wrthod cais ei dad yn gyntaf ond yna mae'n flin am ei anufudd-dod ac yn mynd i weithio yn y winllan. Mae lesu yn canmol ei barodrwydd i edifarhau a chyflawni ewyllys ei dad. Ond nid yw hyn i ddweud bod lesu yn canmol ei holl fywyd na'i weithred o anufudd-dod ar y cychwyn.

Mae yna bobl heddiw, yn arbennig ymhlið yr ifanc, sy'n meddwl eu bod yn iawn iddynt fyw eu bywydau fel maen nhw eisiau, ond iddynt fyw yn unol â ffordd Duw nes ymlaen yn eu bywydau. Maent am fwynhau pleserau bywyd yn awr a gwasanaethu Duw rhywbryd yn y dyfodol! Mae lesu'n dysgu, 'Gwell gennyl eich bod yn dod ataf yn gynnar mewn bywyd a'm gwasanaethu trwy gydol eich bywyd yn hytrach na gadael hyn hyd ddiwedd bywyd.' Y perygl o oedi yw, nid oes sicrwydd y daw cyfle i ddod at lesu nes ymlaen! Mae bywyd bydol a phechadurus yn anodd ei roi heibio a phwy sydd i ddweud y gwnawn dderbyn galwad gan Dduw yn y dyfodol? Yr unig ffordd i fod yn ddiogel gyda Duw yw ymateb yn awr!

## B. GWAITH I'W GYFLAWNÍ.

Gwna lesu ddysgu pa mor bwysig ydyw i ymateb yn onest i wahoddiad Duw ac i fod yn barod i gyflawni ei ewyllys yn awr. Gwelwn hefyd yn y darn, pwysigrwydd gwasanaethu

Duw. Dyma geiriau'r tad, "Fy mab, dos heddiw a gweithia yn y winllan," 28. Dyma bwyntiau sydyn ar hyn:

- i) Mae gwaith i'w gyflawni yn eglwys Dduw, ei winllan. Mae dal i fod cymaint o bobl heb ymateb i alwad lesu Grist. ii) Gwaith Duw ydyw – cofiwn y byddwn yn atebol iddo ryw ddydd; iddo Ef mae'r gogoniant ac nid i ninnau. iii) "Dos heddiw!" Er mai gwaith Duw ydyw, mae yna brysurdeb yma i fwrw at y gwaith yn syth ac nid i oedi. Mae bywyd mor ansicr ac mae perygl o golli'r cyfle. iv) "Fy mab!" Dyma alwad i holl blant Duw. A ydym wedi ymateb i'w alwad? A wnawn ni ei wasanaethu Ef?

**Gweddi:** O Dduw, gyda'r pandemig dal i ddylanwadu'n gryf ar ein bywydau, rydym yn galw arnat Ti i roi gras ac amynedd i ni i fyw bywydau sydd wrth dy fodd Di. Rydym yn hiraethu am gwmni teulu a ffrindiau. Rydym yn gweld eisiau mynchy'u'r capel a dy addoli Di. Rydym yn blino gyda'r cyfyngiadau a'r rhwystrau cymdeithasol. O Dduw, helpa ni i aros yn gadarn yn y ffydd, a hyd yn oed mewn dyddiau anodd i dy fwynhau Di, a gafael ar bob cyfle i dystio i Ti ac i'th wasanaethu. Gallwn galonogi ein gilydd trwy godi'r ffôn neu ddanfon neges. Gallwn weddïo dros ein gilydd. Clyw ein gweddi, yn enw lesu Grist, Amen.

## THE PARABLE OF THE TWO SONS.

**Hymn:** 946 '*Fight the good fight with all thy might.*'

**Reading:** Matthew 21:28-32.

This parable appears towards the end of Matthew's gospel, following the triumphal entry by Jesus into Jerusalem. Jesus was received into the city with great joy and the people shouted, "*Hosanna to the Son of David! Blessed is he who comes in the name of the Lord,*" 21:9. Jesus was greeted as one who was a king and the Messiah, but this did not please the Jewish leaders. They became even more displeased when Jesus drove out the merchants from the Temple area and they questioned, by what authority Jesus was doing such things, (23-27).

### A. TWO CHARACTERS.

The son who said that he would work in the vineyard, but then decided he would not, represented the Jewish leaders. They appeared to be religious, yet they rejected the messengers of God (the prophets, John the Baptist and then Jesus). The other son, who refused his father's request at first, but then obeyed, represents the tax collectors and prostitutes. Here are people who had rejected God's standards, but who had turned from their

godless and sinful lives and received Jesus, and desired to serve Him. The father in the parable is God; the vineyard is the church. Both sons had an opportunity to serve God.

i) **The Second Son:** In the parable, Jesus emphasises the importance of doing the Father's will, rather than pleasing our own will. The second son declared, '*I will, sir,*' 30, but did not go into the vineyard. Is Jesus suggesting that it is improper to make promises to God, since we may not keep them? Jesus is not against such professions to God, but he does expect us to be sincere and honest in our promises to God. Jesus himself declared that there were people during his time on earth, who declared that they had done such and such, and yet they did not undertake the will of God. There were others who greeted Jesus as Lord, and yet they did not truly love him.

Today, there are people who declare that they are members of a church, they appear to be good Christians, and they may even undertake some Christian work or duty. Yet they do not truly love God and serve Him faithfully. They are not true workers within God's vineyard, but rather they are building their own kingdoms. For a person to truly serve God, he/she must love Jesus.

ii) **The First Son:** This son refused the father's request at first, but then he was sorry for his disobedience, and he went to work in the vineyard. Jesus approved of his willingness to repent and to undertake the will of his father. This, however, does not mean that he approved of all that he had done in his life. Jesus did not approve his initial disobedience.

There are people today, often young people, who think that it is alright to live their lives as they desire, as long as they live in God's way at some later point in their lives. They want to have fun now and serve God later. Jesus desires that they come to him early in their lives and give their entire lives in service to Him, rather than leave it to the end of their lives. The truth is, if a person delays now, there are no guarantees that that person will be able to come to Jesus later. The sins of life can entrap a person and hinder a person from coming to Jesus later in life. The only way to be safe with God is to come to Him through Jesus now!

#### B. WORK TO DO.

Jesus teaches how important it is to respond sincerely to God's invitation of salvation and to be ready to undertake His will now and not delay. We see also in this passage

the importance of service to God. These are the words of the father in the parable, "*Son, go and work in the vineyard today,*" 28. **What do we learn here?**

i) There is still work to be done in God's Church, his vineyard. Many people have yet to respond to Jesus' call. ii) It is God's work. The work is for His glory and not to 'puff us up'. iii) "*Go, today!*" Though it is God's work, there should be an urgency on our behalf to do his work now and not to delay. iv) "*Son.*" The call is for all of God's children to serve Him. **Have we responded to His call of salvation through Jesus? Are we serving Him?**

**Prayer:** Heavenly Father, the pandemic still influences our lives, and so we call out to you for grace and patience to continue living lives pleasing unto you. We long to meet family and friends once again. We desire to return to the chapel and to worship you together as a fellowship. We are tired of the rules and social restrictions placed upon our lives. O, Father God, help us to remain firm in our faith in you, and even in such difficult days to grasp the opportunity to serve you. We can encourage one another with greetings over the phone or send a message of comfort by letter or e-mail. We can also pray for one another. Hear our prayer, in Jesus name, Amen.